Mel ab Owain, Swyddog Datblygu'r Canolbarth a'r Gorllewin

Gweithiodd Mel mewn Llywodraeth Leol a'r sector gwirfoddol am y rhan fwyaf o'i fywyd gwaith, yn fwyaf diweddar yn Glerc Cyngor y Dref ym Mhenmaenmawr yn y Gogledd am 4 blynedd. Cyn hynny bu'n gweithio i sefydliadau mor amrywiol â'r Llysoedd Ynadon, Cyllid y Wlad, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a CAB.

Maged Mel yn Sir Aberteifi a Chonwy ac enillodd radd Prifysgol Cymru o Goleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Mae wrthi ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer ei gymhwyster CILCA.

Yn dilyn nifer o flynyddoedd yn hyrwyddo'r 'Wobr Baner Las' yn llwyddiannus ar gyfer llecynnau tir glas cyhoeddus a chymunedol yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru, dychwelodd Mel i lywodraeth leol yn Glerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Tref Penmaenmawr.

Mae Penmaenmawr yn gyngor blaengar a bu Mel ynghlwm wrth nifer o fentrau er mwyn cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau oddi wrth y Cyngor Unedol, gan gynnwys y llyfrgell, glanhau strydoedd a gwelliannau i'r promenâd. Gweithiodd yn agos gyda grwpiau cymunedol lleol ar y rhan fwyaf o'r prosiectau hyn.

Mae Mel yn gobeithio y gellir defnyddio ei brofiad a'i sgiliau i helpu cynghorau cymuned a thref ledled y Canolbarth a'r Gorllewin.